

parch
cynnwys
dylanwadu
hawliau
gwrando

adroddiad blynyddol
03-04





Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Y flwyddyn dan sylw	10
Cyngor a chymorth	21
Rhaglen waith i'r dyfodol	26
Adolygiad y Comisiynydd Plant o faterion:	
Bwlio	27
Gwasanaethau cymdeithasol i blant	28
Plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ceisio lloches	30
Cefnogaeth i rieni a theuluoedd	31
Cynllunio gofodol	33
Materion sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol	33
Crynodeb o'r Datganiad Ariannol	38
Tîm y Comisiynydd Plant:	
Siart y sefydliad	44

Rydym yn ddiolchgar unwaith eto i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod y flwyddyn, naill ai trwy ein gwaith uniongyrchol, fel aelodau o Ateb nôl, neu drwy gymryd rhan mewn proses adolygu. Mae llawer o'u safbwyntiau, eu sylwadau a'u ffotograffau yn ymddangos ar hyd yr adroddiad.

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter,
Phoenix Way, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600 Ffacs: 01792 765601

Plas Penrhos, Oak Drive,
Bae Colwyn, Conwy LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333 Ffacs: 01492 523336
E-bost: post@complantcymru.org.uk
Gwefan: www.complantcymru.org.uk

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformat arall ar gais.

Gair gan Peter Clarke

Bydd dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn yn digwydd bron yn union hanner ffordd drwy fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant Cymru. Mae hwn yn amser da i bwysu a mesur, i werthuso'r hyn sydd wedi cael ei wneud a'r hyn sy'n dal i'w wneud, er mwyn gwella bywydau plant.

Bydd dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn yn digwydd bron yn union hanner ffordd drwy fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant Cymru. Mae hwn yn amser da i bwysu a mesur, i werthuso'r hyn sydd wedi cael ei wneud a'r hyn sy'n dal i'w wneud, er mwyn gwella bywydau plant.

Fel bob amser, rwy'n fwyaf ymwybodol o'r hyn sy'n dal heb ei wneud. Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n dal i wynebu problemau difrifol a fyddai'n rhoi prawf ar sgiliau ac adnoddau'r oedolion mwyaf galluog. Mae gennym blant yng Nghymru sydd mewn perygl ond heb weithwyr cymdeithasol penodol; mae traean o'n pobl ifanc yn byw mewn tlodi; mae bwlio'n dal i ddigwydd yn helaeth mewn gormod o ysgolion, ac mae llywodraeth y DU fel petai'n fwriadol yn ychwanegu at yr ofn pobl ifanc a geir yn y papurau tabloid, yn hytrach nag arwain y ffordd i ddod i gysylltiad â nhw.

Er gwaethaf yr holl negeseuon a dyfyniadau gan blant a phobl ifanc sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn ac adroddiadau eraill gennyf i, rwy'n cyfaddef nad ydym mewn sefyllfa i ddweud eto ein bod mewn cysylltiad agos gyda chynifer o bobl ifanc ag y byddem yn hoffi. Rydym yn gwybod mai deialog clos a chyson gyda phlant yw'r unig ffordd y gallaf obeithio gyflawni fy rôl fel Pencampwr iddynt. Hwn felly yw'r maes y byddaf yn canolbwyntio fwyaf arno yn y blynyddoedd nesaf. Rwy'n bwriadu cynnwys plant a phobl ifanc yn llawer mwy uniongyrchol wrth gynllunio rhaglen waith y swyddfa, yn ogystal â rhoi mwy o ddylanwad uniongyrchol iddyn nhw ar y materion sy'n sail i'n hymgyrchu.

Rydym wedi cyflawni llawer hefyd. Mewn amgylchedd lle mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, rydym wedi helpu i wella systemau, gan annog plant i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio amyn nhw. Bu cynnydd amlwg o ran systemau sy'n caniatáu i blant a'u heiriolwyr gyflwyno cwynion. Dangosodd *Ymchwiliad Clywch* ein gallu i ddefnyddio pwerau cyfreithiol cryfaf fy swydd, a chredwn y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad terfynol yn arwain at welliannau sylweddol o ran diogelu pobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau'r cyfryngau.

Rwy'n gwybod hefyd ein bod wedi helpu nifer sylweddol o blant unigol, a llawer o rieni a gofalwyr. Mae'n fwriad pendant gennyf yn ystod y tair blynedd nesaf i ddatblygu'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth hwn a chanolbwyntio'r gwaith cyngor yn fwy uniongyrchol ar y plant eu hunain. Byddwn fel arfer yn eu cyfeirio ymlaen at eraill, ond byddwn yn parhau i ymyrryd os na fydd systemau eraill yn eu cefnogi'n ddigonol ac yn ymgyrchu dros greu neu estyn gwasanaethau newydd lle gwelir bod angen gwirioneddol.

Yn iaith adroddiad ysgol, rwy'n teimlo ein bod ni wedi 'gwneud dechrau da ond bydd angen cryn ymdrech i sicrhau llwyddiant go iawn'. Rwy'n bwriadu gwneud yr ymdrech honno yn ystod y tair blynedd a hanner nesaf. Mae plant a phobl ifanc Cymru yn haeddu'n holl ymdrechion gorau.



Peter Clarke

Comisiynydd Plant Cymru
Hydref 2004



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwaith a wnaed gan Peter Clarke a'i dîm yn ystod blwyddyn ariannol 1af Ebrill 2003 i 31ain Mawrth 2004; ond mae hefyd yn mynd ymhellach na hynny.

Mae llawer o'n gwaith yn barhaus ac yn ddi-dor, ac mae'n berthnasol felly adrodd am waith a wnaed y flwyddyn honno, ond a gafodd ei gyhoeddi o bosib y flwyddyn ganlynol, yn hytrach na chanolbwyntio dim ond ar sut y cafodd yr wybodaeth honno ei chasglu.

Fel fîm rydym yn ymroddedig i wrando ar blant a phobl ifanc, ac i ddysgu oddi wrth yr hyn rydym wedi'i glywed a gweithredu arno. Mae llawer i'w gyflawni o hyd, ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dweud cymaint wrth y darllenydd am y broses o wneud ein gwaith ag am y canlyniadau.

Mae gweithio tuag at sicrhau bod Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn realiti yng Nghymru yn golygu cofio gwerth ac arwyddocâd y prosesau, nid dim ond sefydlu strwythurau, gwasanaethau a gweithdrefnau. Yn anffodus, nid oes ateb hawdd a rhes o focsys i'w ticio. Yn aml bydd yn ymddangos nad oes pen i'r daith, ac mae angen i bawb fod yn datblygu, yn gwella ac yn dysgu'n barhaus.

Beth yw Comisiynydd Plant?

Mae Comisiynydd Plant yn fwy nag ombwdsmon, ac weithiau mae'n cael ei ddisgrifio fel pencampwr plant neu fel sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant.

Mae nifer y Comisiynwyr Plant yn cynyddu yn Ewrop a ledled y Byd wrth i wledydd ddod yn fwy ymwybodol o'r angen am hybu a diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc, a'u cymryd o ddifri. Mae union waith Comisiynydd Plant, a sut mae'n ei wneud, yn amrywio o wlad i wlad - ond maent bob amser yn ceisio gweithio er lles plant a phobl ifanc.



Sut a pham y cafodd Cymru Gomisiynydd Plant?

Bu sefydliadau cysylltiedig â phlant yng Nghymru yn ymgyrchu am Gomisiynydd Plant am fwy na 10 mlynedd. Roedd gwleidyddion yn y Cynulliad hefyd yn hoffi'r syniad. Roedden nhw am gael rhywun fyddai'n siarad dros hawliau plant a phobl ifanc ac yn helpu i gryfhau a gwella'r systemau sy'n bodoli i'w hamddiffyn.

Yn gynnar yn 2000, cyhoeddodd Sir Ronald Waterhouse ei adroddiad - *Ar goll mewn gofal* - wedi ymchwiliad hir i g am-drin plant mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru. Argymhellodd y dylai Cymru gael Comisiynydd Plant i geisio atal pethau o'r fath rhag digwydd eto. Cyflymodd hyn yr ymgyrch a phasiwyd deddfwriaeth yn y Senedd i greu'r swydd a rhoi iddi'r pwerau angenrheidiol.

Pryd cafodd y swydd ei chreu?

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru - y gyntaf o'i bath yn y DU - gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 gylch gorchwyl y swydd a chyflwyno'r prif nod, sef diogelu a hybu hawliau a lles plant yng Nghymru.

"Mi glywon ni su beth amser yn ôl bod ein gwisgoedd ysgol yn newid, ac roedd pawb yn flin iawn achos wnaeth neb ofyn beth oeddau ni am. Dwin bendant y dyle ni fod yn gallu lleision b arn ar beth ydan ni am neu ddim am."

"Sdim llawer o fwls yn ein ysgol ni, ond mae ambell un yn tripio pob ol lan yn y rhodfa ac yn gweiddi pethe cas. Gwaeth na hynny yw bod yr athrawon yn anwybyddu beth sy'n digwydd achos bod plant ddim yn swyno - dim ond pan mae'r bwls yn poenir athrawon mae unrhyw beth yn cael ei wneud."

Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?

Peter Clarke - a ddaeth i'w swydd ar Ddydd Gŵyl Ddewi 2001. Cafodd ei benodi gan Brif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei gyfwrdd gan blant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae'r Comisiynydd Plant a'i dîm yn bodoli i helpu sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru:

- yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth
- yn cael y cyfleoedd a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu
- yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- yn gallu lleisio barn yn eu cymunedau a chwarae rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw
- yn gwybod am eu hawliau a Chonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r prif ffocws ar bawb 18 oed ac o dan hynny sy'n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Ond mae'r Comisiynydd Plant hefyd yn medru gweithredu mewn perthynas â phobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau - e.e. os ydynt wedi bod yn derbyn gofal. Os oes goblygiadau i blant a phobl ifanc heddiw, mae hefyd yn gallu ymchwilio i bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oeddent yn blant.

parch
cynnwys
lleisiau
hawliau
gwrando
agored
cefnogaeth
tegwch

Beth mae'r Comisiynydd a'i dîm yn gallu gwneud?

O dan y ddeddfwriaeth, nid yw rôl y Comisiynydd Plant wedi'i gyfyngu i faterion sydd fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai cysylltiedig â phlant, er enghraifft iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynllunio, trafndiaeth, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig hefyd yn rhan o'i rôl.

Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant
- archwilio achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â bywydau plant yng Nghymru
- galw am wybodaeth gan asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar lw
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac eraill

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru hefyd bŵer ychwanegol i ystyried a chyflwyno achos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch **unrhyw fater** sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei fod yn medru trafod materion y tu allan i gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft cyfiawnder ieuencid, y llysoedd teuluol, a budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn dweud bod rhaid iddo:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ei swyddfeydd a sut i gysylltu ag ef a'r tîm
- annog plant i ddod i gysylltiad
- gofyn i blant beth yw eu barn am ei waith a'i waith i'r dyfodol, a gadael iddynt ddylanwadu ar ei raglen waith
- sicrhau ei fod ef a'i staff yn mynd i gwrdd â phlant ble bynnag y maen nhw
- meddwl yn arbennig am blant sy'n 'anodd eu cyrraedd', sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol neu sydd ar yr ymylon mewn rhyw ffordd
- cadw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cof ym mhopeth mae ef a'i dîm yn ei wneud.

"Sain credu ei fod en iawn bod rhaid i ferched wisgo sgert mewn rai ysgolion - bydden i ddim am wneud beth bynnag!"



Sut rydym ni'n gweithio

Mae'r Comisiynydd Plant a'i staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, ond maen nhw'n gweithio ar draws Cymru gyfan. Yn ystod blwyddyn yr Adroddiad Blynyddol yma roedd tri thîm arbenigol llai - Gwerthuso Polisi a Gwasanaethau, Cyfathrebu, a Chyfreithiol a Gweinyddiaeth - ond roedden nhw i gyd yn cydweithio. Mae peth ailstrwythuro mewnol wedi digwydd ers hynny gyda chreu tîm Cyfreithiol ac Ymchwiliadau a thîm Gwasanaethau Corfforaethol ar wahân. Mae Is-Gomisiynydd neu rywun cyfatebol yn arwain pob tîm.

"Mae'r toledau yn fy ysgol i yn ffiaidd.
Sdim papur tŷ bach, dim sebon, a dim tŷwel.
Does dim seddi toled i eistedd arno a maer
toledaun frwnt."

Eisiau gwybod mwy?

- Gallwch ddod o hyd i Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ar wefan HMSO: www.legislation.hmso.gov.uk
- Lluniodd y Cynulliad ddeddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2001 a gallwch ddod o hyd iddi ar wefan HMSO: www.wales-legislation.hmso.gov.uk
- Mae dogfen ymgynghori'r Cynulliad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau'r Comisiynydd yn rhoi mwy o fanylion am ei holl gylch gwaith a chwmpas ei bwerau. Gallwch ddod o hyd iddi ar wefan y Cynulliad: www.wales.gov.uk/subchildren
- Mae llawer o wybodaeth a fersiwn hawdd ei deall Gofensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar www.therightssite.org.uk, www.savethechildren.org.uk/rightonline, www.childreninwales.org.uk, www.unicef.org.uk neu www.crights.org.uk
- I gael mwy o wybodaeth am Gomisiynwyr Plant ac ombwdsmyr ar draws Ewrop ewch i www.ombudsnet.org
- Ewch i'n gwefan: www.complantcymru.org.uk

"Dwin meddwl bod ein gwisgoedd ysgol ni yn rhy ffrwymp! Yn enwedig y siwmperi coch. Ryn nin teimlo fel tomatos!!!! Ond ar y llaw arall dwi meddwl bod ein dda am ei fod yn rhoi llai o bwysau arnon ni, achos does dim rhaid i ni fecso am beth i wisgo, neu be sy'n ffasiynol achos bod ni gyd yn gwisgor un peth."

Y flwyddyn dan sylw 2003-2004

Bwriad y ddeddfwriaeth yw rhoi'r offer i Gomisiynydd Plant Cymru fedru bod yn bencampwr gwybodus i blant a phobl ifanc, a chyflawni ei rôl fel eiriolwr systemig - gan godi llais ar eu rhan a gyrru newid ymlaen i sicrhau dyfodol mwy disglair a diogel ar gyfer plant Cymru. Nid yw'r holl gyfarpar yn y blwch offer yn cael ei ddefnyddio bob dydd, ond golygodd gweithgareddau a rhaglen waith y flwyddyn fod y pwerau statudol wedi cael eu defnyddio'n effeithiol.

Clywch: adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgol

Un o'r pwerau cyfreithiol cryfaf sydd ar gael i'r Comisiynydd Plant yw'r gallu i gynnal Archwiliad - ymchwiliad cyhoeddus ffurfiol i amgylchiadau sefyllfa sy'n destun pryder arbennig. **Archwiliad Clywch** oedd yr ymchwiliad cyntaf i'w gynnal o dan bwerau statudol y Comisiynydd Plant, ac roedd yn edrych ar honiadau o gam-drin plant yn rhywiol mewn amgylchedd ysgol. Cychwynnodd yr archwiliad yn 2002, a chwblhawyd y gwrandawiadau terfynol ym mis Tachwedd 2003.

Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ym mis Gorffennaf 2004 a chafodd ei groesawu gan y llywodraeth ac arbenigwyr amddiffyn plant yng Nghymru a'r DU. Gorchymyn i wrando yw 'clywch', a'r neges yw bod angen gwrandao ar blant a phobl ifanc, a bod yn rhaid i oedolion proffesiynol ddysgu gweithredu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Ac, os bydd pawb sy'n derbyn argymhellion yn eu dilyn, bydd cyfleoedd plant mewn bywyd a'u hamddiffyniad yn gwella'n aruthrol. Yn y modd hwn, mae archwilio ac ymchwilio i gefndir amgylchiadau penodol wedi galluogi'r Comisiynydd i ddod i gasgliadau ynghylch gwelliannau polisi ac arfer a fydd o fudd i holl blant Cymru - heddiw ac yn y dyfodol.

Wrth ganmol dewrder y cyn-ddisgyblion a ddaeth i'r amlwg, a'r Athrawon Uwch yn yr ysgol a gymerodd eu pryderon o ddifri, mae adroddiad **Clywch** yn nodi diffygion difrifol ar ran swyddogion yr awdurdod lleol ac yn dweud bod y byrddau arholi dan sylw wedi methu'n gorfforaethol ag amddiffyn plant.

Mae'r adroddiad yn nodi, yn sgîl methiant i gyfeirio'r mater yn briodol at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, i'r unigolyn dan sylw fedru parhau mewn cysylltiad â disgyblion a gweithio gyda phlant er gwaethaf y ffaith fod honiadau difrifol o gam-drin wedi'u gwneud yn ei erbyn. Mae adroddiad **Clywch** hefyd yn dod i'r casgliad fod 'bargen' wedi'i tharo er mwyn cadw'r mater yn dawel. O ganlyniad, credai plant nad oedd eu cwynion am gam-drin rhywiol a bwlio wedi cael eu credu, a chredodd rhai athrawon yn yr ysgol ac eraill yn y gymuned yn anghywir nad oedd sail i unrhyw honiadau.

Ymhlith yr argymhellion yn yr adroddiad nodir bod angen strategaeth genedlaethol i ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol i blant a phobl ifanc mewn addysg, ac y dylai ffynonellau cefnogaeth i ddisgyblion - fel y rheiny a ddarperir gan gyrff gwirfoddol a llinellau cymorth - gael eu nodi a'u hysbysebu mewn ysgolion.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn argymhell, yn achos honiadau difrifol, y dylai materion disgyblu fod yn destun ymchwiliad trwyadl gan swyddog personél arbenigol a mynd drwy bedwar tribiwnlys disgyblu newydd, gyda Chadeirydd cyfreithiol gymwys ym mhob un. Byddai hyn o fudd i bawb cysylltiedig o ran cyflymdra, annibyniaeth a thegwch.

Mae adroddiad **Clywch** hefyd yn nodi gwendidau difrifol o ran diogelu plant sy'n gweithio ym maes y cyfryngau a'r celfyddydau perfformio. Cafwyd argymhelliad felly fod pob adran o'r cyfryngau yng Nghymru'n sefydlu polisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant effeithiol i amddiffyn plant, ac yn sicrhau bod hebryngwyr yn cael eu gwirio a'u trwyddedu'n briodol, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

adrodd
adolgygu
gwirio
cyfartal
gwybodaeth
ffeithiau
nerth
hyder
gwarchod

Adolygu polisïau a gweithdrefnau

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni gychwyn ail adolygiad o drefniadau cwynion ac eiriolaeth plant a pholisïau a gweithdrefnau datgelu camarfer. Mae cynnal adolygiad yn rhoi cyfle i ni edrych yn fwy manwl ar sut mae systemau a gweithdrefnau yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc. Gan ddilyn y fformat a ddefnyddiwyd ar gyfer adolygu'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol oedd yn destun yr adroddiad **Datgan Pryderon**, y tro yma buom yn edrych ar y 22 awdurdod addysg lleol (AALlau) yng Nghymru.

Ymhlith pethau eraill, mae AALlau yn gyfrifol am sicrhau bod y broses anghenion addysgol arbennig yn cael ei rhoi ar waith. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am y gwasanaeth lles addysg, gwasanaeth seicolegol yr ysgolion, prydau ysgol a threfnu cludiant i'r ysgol.

Roedd angen i ni ddarganfod sut roedd AALlau yn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawl i gwyno am wasanaethau, a hefyd ddarganfod a oedd polisïau a gweithdrefnau presennol AALlau yn hawdd i blant a phobl ifanc gael atynt, ac yn rhoi'r plentyn yn y canol. Mae diwygiad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r canllawiau ar gyfer polisi a gweithdrefnau gwynion gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn rhoi cyfle i ddiwygio polisïau a gweithdrefnau cwynion cyfredol AALlau. Hyderwn y bydd canfyddiadau'n hadolygiad yn bwydo i'r broses honno.

Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cyd-fynd â'r argymhellion a wneir yn adroddiad **Clywch** ac yn ychwanegu atynt, ac rydym yn disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi tua diwedd 2004.

"Dyle'r oed pleidleisio gael ei ostwng fel bod pobl ifanc yn gallu fotio!"



Monitro cynnydd o ran yr argymhellion

Beirniadaeth gyson ar adroddiadau yw'r ffaith eu bod yn aml, ar ôl cael eu cyhoeddi a derbyn peth cyhoeddusrwydd, yn eistedd ar silff. Mae'r gallu i fynnu ymateb i unrhyw argymhellion a wnaed, a'u monitro, yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd i adroddiadau'r Comisiynydd Plant.

Ar ôl cyhoeddi **Datgan Pryderon** aethom ati i edrych ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r 65 argymhelliad. Yn gyntaf fe wnaethom ni ysgrifennu at yr holl sefydliadau ac asiantaethau yr oeddem wedi cyflwyno'r argymhellion iddyn nhw, i esbonio ein bod yn mynd i fonitro'u cynnydd, ac i ofyn iddyn nhw anfon cynllun gweithredu atom ni. Ar yr un pryd, fe wnaethom ni sefydlu system ffeilio a chofnodi er mwyn i ni fedru cadw golwg ar yr ymatebion, ac felly ddychwelyd atyn nhw.

Roeddem yn falch o'r cyhoeddiad cynnar y byddai'r holl argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu rhoi ar waith. Rydym yn croesawu creu'r uned eiriolaeth plant, a chanlyniadau'r ymchwil i gwynion plant a wnaed gan Voices from Care Cymru.

Ond rydym yn dal i bryderu am ddatblygiad swyddogion cwynion plant yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Hyd yma rydym yn ymwybodol, er gwaethaf argymhellion a wnaed gan Syr Ronald Waterhouse yn ei adroddiad Lost in Care, a'n hargymhelliad dilynol yn **Datgan Pryderon**, mai dim ond 10 awdurdod lleol sydd wedi datblygu rôl swyddog cwynion plant. Byddwn yn parhau i fonitro'r ymatebion a gawsom a oedd yn nodi bwriad i roi'n hargymhellion ar waith yn y dyfodol.

Mae gwaith ar fonitro gweithredu argymhellion adroddiad **Clywch** hefyd wedi cychwyn.

Estyn llaw at blant a phobl ifanc

Mae Peter Clarke yn sicrhau, drwy ymweld ag ysgolion a grwpiau o bobl ifanc yn gyson, siarad mewn cynadleddau a mynychu digwyddiadau, ei fod yn cael cyfle i wybod am y pethau diweddaraf y mae plant a phobl ifanc yn teimlo sy'n bwysig iddyn nhw ac sy'n effeithio ar eu bywydau ar y pryd.

Ond mae sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth o'r fath gan HOLL blant Cymru yn dasg anodd, ac er bod y gwaith o gynnwys plant a phobl ifanc a chynnal deialog gyda nhw wedi bod yn digwydd ers peth amser, pan gyrhaeddodd staff newydd yn hydref 2003 roedd hynny'n golygu bod modd mynd ati'n systematig i fapio'r ardaloedd lle bu ymweliad a'r grwpiau o bobl ifanc roedd y Comisiynydd a'r tîm wedi cwrrd â nhw.

Yn gynnar yn 2004 cychwynwyd ar raglen systematig o waith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi'i thargedu at grwpiau 'anodd eu cyrraedd' - yn bennaf yn Ne a Gorllewin Cymru - a bydd hon yn cael ei hestyn i Gymru gyfan yn ystod y misoedd nesaf. O ystyried yr ardal ddaearyddol eang a'r ystod helaeth o grwpiau dan sylw mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill ac mae'n ymrwymiad tymor hir.

Mae'n hanfodol bod tîm y Comisiynydd Plant yn hawdd cael atynt ac yn croesawu holl blant Cymru, yn dathlu amrywiaeth ac yn cofleidio arfer gwrth-ormesol.

"Dwin meddwl ei fod e'n bwysig hefyd bod yna wisg ysgol lle does neb yn cael ei gweld yn well na neb arall."

Rydym yn parhau'n ymroddedig i weithio tuag at hynny. Yn aml, bydd hynny'n golygu gweithio gyda'r rheiny sy'n brofiadol o ran dulliau cyfathrebu penodol neu weithio'n uniongyrchol gyda grŵp penodol o blant a phobl ifanc. Wrth sefydlu gweithgor mewnol ar Gyfle Cyfartal a fydd yn ystyried pob agwedd ar ein gwaith, bydd yr adnoddau o fewn y tîm yn cael eu datblygu a'n harfer yn gwella ymhellach.

"Mae'r ffynnon yn horibl, mae stwff gwyrdd arno fo."

Mae tua hanner y tîm staff yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae sawl aelod arall o'r staff eisoes yn gwybod cryn dipyn o'r iaith neu'n mynd ati i'w dysgu. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gwersi Cymraeg yn y Gweithle a oedd yn agored i'r holl staff yn swyddfeydd Abertawe. Rydym yn ffodus bod pob maes gwaith arbenigol yn cynnwys o leiaf un aelod o staff sy'n medru darparu gwasanaeth a chyfathrebu yn Gymraeg.

Atebnôl: ein grŵp e-bost

Mae Atebnôl wedi llwyddo i raddau cymysg ar ôl ei lansio'n llwyddiannus ym Mai 2003 gyda mwy o aelodau a negeseuon rheolaidd. Mae'r gwasanaeth yn awr yn cael ei aildatblygu gyda chefnogaeth dechnolegol well a gwasanaeth negeseuon testun SMS, a bydd yn mynd yn fyw yn hydref 2004.

Yng ngwanwyn 2004, roeddem yn chwilio am waith celf addas ar gyfer casgliad newydd o gardiau post i recriwtio aelodau newydd i Atebnôl. Rhoddodd ysgolion a cholegau ar draws Cymru gyfle i ni ffotograffio gwaith eu myfyrwyr, a phleidleisiodd plant a phobl ifanc dros eu ffeffrynau.



Lansiwyd gwefan newydd well yn gynnar yn 2004, ac wedi ymgynghori â phlant mewn Eisteddfodau a digwyddiadau eraill, bydd yn cael ei datblygu ymhellach yn fuan iawn. Mae'n fwrriad hefyd cynnal ymgynghori mwy helaeth a datblygu cynnwys y wefan i ymateb i anghenion pobl broffesiynol ac eraill.

"Os nad yw rhieni am i'w plant fod yn ddiflas a dwyn ceir a cymryd drygs, dylen nhw fynd a nhw llefydd, ynte?"

Cynnwys plant a phobl ifanc yn ein gwaith

Cyfrannodd pobl ifanc lawer at ein rhaglen recriwtio yn ystod y flwyddyn gyda thri deg yn derbyn hyfforddiant ar dechnegau cyfnewid, cyfle cyfartal a'r broses recriwtio. Mae gwaith ar sefydlu fframwaith i'w cynnwys ymhellach yn ein cylch rheoli a chynllunio corfforaethol hefyd wedi cychwyn, a rhagwelir y bydd llawer o ddatblygiadau cyffrous erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid i'r Comisiynydd Plant gadw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn mewn cof ym mhopeth y mae'n ei wneud. Byddai gweithdai a chyflwyniadau i blant a phobl ifanc neu'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw yn anghyflawn pe na bai rôl y Comisiynydd yn cael ei esbonio yng nghyd-destun hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Wrth fynychu Eisteddfodau, cynlluniau chwarae, gwyliau ieuenticid neu ddigwyddiadau tebyg, mae'r gweithgareddau bron yn ddieithriad yn canolbwyntio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn neu hawliau plant o fewn gwasanaeth penodol. Yn y misoedd diwethaf mae plant wedi cyfrannu at faneri hawliau a chwilt mawr, gan dynnu sylw at Erthyglau'r cytundeb sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw. Mae'r rhain i gael eu harddangos yng nghynhadledd Rhwydwaith Ewropeaidd Ombwdsmyd Plant ym mis Hydref.

"Y peth gore am y bws yw'r fenyw sy'n gofalu am ni oherwydd ar ddiwedd y dydd weithie maen rhoi bsin i ni a maen gadael i ni wyllo'r teledu ar y bws a nin gweld fideos a pethe."

Siarad ar ran plant a phobl ifanc

Mae cyflwyno'r neges mewn sawl ffordd yn hanfodol i bencampwr plant effeithiol. Mae angen i blant a phobl ifanc gael adborth ar yr hyn sy'n cael ei wneud â'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi i ni, ac mae angen i ni sicrhau bod y rheiny sy'n llunio polisiau a'r rheiny sy'n medru gwneud gwahaniaeth yn gwybod am fam ac argymhellion y Comisiynydd.

Er y gall hyrwyddo argymhellion adroddiad neu adolygiad polisi ymddangos yn bell o fywyd pob dydd, rydym bob amser yn ceisio adlewyrchu'r hyn mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthym - nid dim ond yr hyn rydym ni'n tybio fyddai'n fwyaf llesol iddyn nhw.

Drwy roi cyfweiliadau i bapurau newydd, cylchgronau, newyddiaduron, a rhaglenni radio a theledu cenedlaethol, lleol ac ar draws y DU, rydym yn ceisio cyrraedd cynifer o bobl ag y gallwn. Mae digon o ymholiadau gan y cyfryngau, ac er ein bod yn cyflwyno datganiadau i'r wasg, mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd yn y cyfryngau'n tarddu o ddatblygiadau allanol, felly mae'n rhaid i ni fod yn barod i ymateb.

"Sain hapus bo ni ddim yn cael unrhyw dewis gyda meddyginiaeth, 'sneb yn esbonio'r sgil effeithiau nag yn gwneud yn siwr eu bod nhw'n gwybod beth ywn anghenion ni."



dewis
argymhell
grymus
tyfu
diwylliant
chwarae
saff
siarad
annibynnol



Dylanwadu a rhwydweithio

Gall y neges bod rhaid gwrando ar blant ymddangos yn ailadroddus, ond yn aml nid yw hawliau plant yn cael eu parchu am fod system neu drefn wedi'i sefydlu fel petai wedi'i bwriadu i wasanaethu biwrocratiaeth, yn hytrach na phlentyn neu berson ifanc. Er bod peth o waith dylanwadol swyddfa'r Comisiynydd plant yn cyfrannu at ymgyrchoedd i hyrwyddo argymhellion darn penodol o waith, mae eraill yn edrych yn benodol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc.

Lluniwyd perthynas gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau ar draws Cymru, darparwyd eiriolaeth, sefydliadau i blant a chymdeithasau proffesiynol, a hefyd gyda grwpiau diddordeb arbennig, isadrannau'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymateb i ymgynghori, gan seilio'n galwadau ar wybodaeth a gasglwyd trwy'n gwaith cyfranogi, cyngor a chymorth, a gwaith cyfathrebu. Er enghraifft, roeddem yn gallu cynnwys plant a phobl ifanc drwy *Atebnôl*, gan gasglu amrywiaeth o ymatebion i ymgynghoriad LICC ar wisg ysgol.

Mae dylanwadu ar y llywodraeth a llunwyr polisïau'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau. Gan ein bod yn aml yn ceisio cyflawni newid diwylliannol o fewn sefydliadau neu'r gymdeithas ehangach, mae hyn yn galw am ymagweddiad eang. Mae aelodau o dîm y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau a gweithgorau - yn aml fel arsylwyr er mwyn parhau'n annibynnol - gan sicrhau ein bod yn medru dylanwadu ar ddatblygiadau a sicrhau gwelliant yn gynnar yn oes ymgyrch bolisi neu arfer gwaith.

Gweld y darlun ehangach

Mae cyswllt cyson gyda phlant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw neu'n gweithredu ar eu rhan yn hanfodol. Er ein bod yn canolbwyntio'n bennaf ar rai materion penodol, mae angen i ni hefyd gadw bys ar byls rhai o'r materion pwysig eraill. Fel swyddfa mae'n bwysig ein bod yn cyflawni'n rôl fel eiriolwyr systemig, gan geisio dylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisi a gyrru'r agenda yn ei blaen. Mae materion ehangach yn dod i'n sylw mewn tair prif ffordd:

- cyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, er enghraifft drwy waith cyfranogiad neu gyngor a chymorth
- gwybodaeth y mae pobl broffesiynol yn ei rhannu gyda ni
- agweddau allweddol ar adolygiadau.

Mae hyn yn golygu ein bod yn medru gwneud sylwadau gwybodus ar amrywiaeth o faterion - yn wir, ar unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant a phobl ifanc.

"Mae plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o fewn y system iechyd meddwl, sy'n trio roi pobol mewn bocsys."

Yn ogystal â'r prif feysydd y buom yn canolbwyntio arnyn nhw yn ystod 2003-04, galwyd arnom hefyd i wneud sylwadau a/neu roi tystiolaeth i bwyllgorau ar amrywiaeth o faterion a oedd yn cynnwys:

- diet a iechyd
- smygu
- iechyd rhyw ac addysg rhyw
- tlodi plant
- trais yn y cartref
- anhwylderau bwyta
- plant sy'n ceisio lloches a'u teuluoedd
- pwysau gan gyfoedion
- y Swyddfa Cofnodion Troseddol
- arfer rhwng cenedlaethau
- gostwng oed pleidleisio
- cyrffyw
- sut mae plant yn cael eu portreadu yn y cyfryngau
- bwlio
- dalgylchoedd ysgolion
- pwysau arholiadau
- diogelwch y rhyngrwyd
- Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- defnyddio ffonau symudol a'u camdefnyddio
- trin a goruchwylio oedolion sy'n cyflawni troseddau rhyw

hwyl
diogelu
cyfranogj
newid
cyfleoedd
gweithredu
anghenion
ystyried
estyn allan

Cyhoeddi'n canfyddiadau a lledaenu arfer da

Codi'r clawr: cyflwr toiledau ysgol y genedl

Un o'r materion cyntaf y daeth y Comisiynydd Plant ag ef at sylw'r cyhoedd a'r llywodraeth oedd cyflwr toiledau ysgol ledled Cymru. Yn ystod ymweliadau ag ysgolion a grwpiau ieuenctid, soniodd plant a phobl ifanc yn aml am gyflwr gwael y toiledau. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn adlewyrchu diffyg parch gan oedolion tuag atynt, ac nad oedd yn fater ysgafn na dibwys o bell ffordd.

Ar ôl gwrandao ar eu barn, penderfynodd Peter Clarke y dylai ei dîm edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa bresennol. Fe fuom ni'n edrych ar ddeddfwriaeth, canllawiau perthnasol, a sawl astudiaeth ymchwil. Yn fwyaf pwysig, fe fuom ni'n casglu gwybodaeth, barn a sylwadau gan blant a phobl ifanc ar draws Cymru. Fe wnaethom ni weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a chynnwys ein grŵp e-bost Atebnôl yn ogystal. Fe fuom ni hefyd yn siarad â staff ysgolion, awdurdodau addysg lleol, llywodraethwyr ysgolion, arolygwyr ysgolion a llunwyr polisïau.

Roedd yn amlwg nad oedd y cyfleusterau sylfaenol hyn yn flaenoriaeth, a bod disgwyl i ddisgyblion gyflawni dyletswyddau preifat dros ben mewn amgylcheddau erchyll y soniodd llawer amdanynt. Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i osgoi defnyddio toiledau'r ysgol a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd, eu lles a'u gallu i ganolbwyntio a gweithio'n dda yn yr ysgol.

Mae **Codi'r clawr** yn nodi'r cyd-destun polisi presennol, goblygiadau canfyddiadau'r ymchwil, a hynny yng nghyd-destun barn a phrofiadau plant a phobl ifanc. Un o'r canfyddiadau pwysicaf yw nad yw toiledau pob ysgol yn wael. Mae'r union ffaith fod rhai yn ddigonol - neu hyd yn oed yn wych - yn profi nad oes esgus dros doiledau ysgol ffaidd.

Mae Codi'r Clawr yn cyflwyno sawl argymhelliad ar gyfer gweithredu, gan gynnwys:

- archwiliad o gyflwr presennol yr holl doiledau ysgol yng Nghymru o fewn y 12 mis nesaf;
- eglurder yn y gyfraith fel bod toiledau i blant yn amlwg yr un mor bwysig â toiledau i oedolion;
- gofyn i ddisgyblion am eu toiledau ysgol, gwrandao amyn nhw a'u cynnwys mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer gwelliant neu fonitro pa mor dda yw'r gofal mae'r toiledau yn ei dderbyn.

"Gofynnwn nhw beth oeddwn ni moyn a mae'r toiledau llawer yn well nawr eu bod wedi cael eu atgyweirio. Roedden nhw arfer bod yn ddiflas ac yn boring, ond nawr mae nhw'n ychwanegu ychydig o liw i'r diwrnod ysgol."



Ond mod i'n cyrraedd yn sâff: yn anelu at deithiau gwell a mwy diogel i'r ysgol

Daeth yr angen am ganolbwyntio ar gludiant ysgol yn yr ail astudiaeth ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc yn fwy amlwg fyth pan fu damwain angheuol ym mis Rhagfyr 2002 wrth i ddisgyblion gael eu cludo adref o ysgol gyfun ym Mro Morgannwg.

Yn ogystal ag edrych ar y cyd-destun polisi, roeddem yn awyddus i gael gwybodaeth am deimladau plant a phobl ifanc o ran diogelwch ar eu bysus ysgol. Cymhlethdod ychwanegol wrth gwrs yw bod y daith ar y bws ysgol yn amlwg yn 'amser i ymlacio' i lawer, a bod yr union bethau sy'n gwneud y profiad yn un i'w fwynhau i rai pobl ifanc yn gallu gwneud y daith yn ddiflas i eraill - ac weithiau hyd yn oed yn gallu golygu bod pawb mewn perygl.

"Hyd yn oed pan mae'n seddi, maen nhw'n sefyll.
Dweda i ddim celwydd, roedd fy ffrindie a fi
arfer gwneud, ond dim ond achos bod neb, nid
hyd yn oed y gyrrwr, yn dweud wrtho ni ddim i
wneud hynny. Nawr eih bod nin henach, ry'n nin
gallu gweld pa mor beryglus alle fe fod."

Roeddem eisoes yn gwybod o amrywiaeth o ffynonellau bod pryderon ynghylch ansawdd a safon y bysus a ddefnyddir i deithio i'r ysgol, ac nad oeddent bob amser yn ddiogel. Roedd ymddygiad ar y bws, gan gynnwys bwlio, hefyd yn broblem.

Cyfrannodd tua 120 o blant a phobl ifanc ar draws Cymru, gan ddweud wrthym beth roedden nhw'n ei hoffi am y bws ysgol a beth roedden nhw'n ei gasáu. Cawson nhw gyfle hefyd i awgrymu eu hargymhellion eu hun er mwyn gwneud y daith i'r ysgol yn well ac yn fwy diogel.

Iles
hyrwyddo
iechyd
dylanwadu
cael eich clywed
cyngor
cynhwysiad
trawsnewid

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym ni fod:

- rhai bysus ysgol yn frwnt ac yn drewi - ond bod eraill yn wych
- llawer o ddisgyblion heb deimlo'n saff - weithiau oherwydd bod y bws yn hen, neu bod dim gwregysau diogelwch; weithiau oherwydd y gyrru; ac weithiau oherwydd bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn wael
- yr agweddau cymdeithasol yn bwysig iawn, gan gynnwys siarad â ffrindiau a chael amser da
- rhai bysus yn orlawn, gyda 3 pherson mewn seddau sydd i fod ar gyfer 2
- plant a phobl ifanc sy'n teithio ar fysus ysgol yn ymwybodol o faterion diogelwch, ond yn mwynhau rhyddid ac yn teimlo bod gwregysau diogelwch yn achosi problem o ran delwedd.

Mae'r argymhellion yn Ond mod i'n cyrraedd yn sâff yn cynnwys:

- peidio â defnyddio'r rheol 3 yn lle 2, gan nad yw'n cyd-fynd â'r angen i bob disgybl wisgo gwregys diogelwch.
- rhaid gwella ansawdd a safon y cerbydau, a dylai bysus ysgol fod yn lân, yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn ddibynadwy.
- darparu hyfforddiant priodol i yrwyr bysus ysgol a chyflogi hebryngwyr sydd wedi'u hyfforddi, eu gwirio ac sy'n derbyn digon o gefnogaeth.
- dylai pob bws ysgol gynnwys gwregysau diogelwch, ac mae angen gweithredu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu hysgogi i'w gwisgo.

"Mae angen mwy o glybiau ieuencid yng Nghymru."

- parhau i gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gludiant ysgol. Mae angen iddyn nhw ystyried a thrafod y materion dan sylw a bod yn rhan o lunio rheolau ymddygiad sylfaenol, a monitro yn y tymor hir. Mae disgyblion sy'n teithio ar fws ysgol yn aml yn gwybod mwy am broblemau diogelwch neu fwlio nag oedolion - felly mae angen gofyn iddyn nhw a gwrandao arny'n nhw.

Datgan Pryderon: Canllawiau ymarfer

Wrth gynnal yr adolygiad o adrannau gwasanaethau cymdeithasol a arweiniodd at yr adroddiad **Datgan Pryderon** cafwyd cyfle i nodi agweddau ar arfer a chyflwyno gwasanaeth yr oeddem yn teimlo y dylid eu rhannu ag awdurdodau lleol eraill ac yn wir ag asiantaethau eraill.

Galluogodd yr wybodaeth hon ni i baratoi 3 chanllaw ymarfer: Cwynion Plant, Eiriolaeth Plant, a Datgelu Camarfer. Mae'r canllawiau wedi'u hysgrifennu fel eu bod yn gallu cael eu rhannu â phlant a phobl ifanc, neu eu defnyddio mewn rhaglenni hyfforddi.

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael o'n swyddfeydd, neu gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan www.complantcymru.org.uk



Cyngor a Chymorth

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi mewn sawl ffordd, ac mae datblygiad pellach y gwasanaeth Cyngor a Chymorth i blant a phobl ifanc yn un o'r ffyrdd mwyaf gweladwy i'r Comisiynydd Plant gyflawni ei rôl. Mae'r pŵer statudol i ddarparu cyngor a chymorth ac ymchwilio i achosion unigol yn offeryn gwerthfawr. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y gallu i ymgymryd â gwaith o'r fath yn allweddol ar gyfer ei rôl oherwydd:

1. Mae'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant unigol
2. Mae'n caniatáu nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer adolygiadau polisi ac ymchwilio, ar sail profiadau go iawn plant a phobl ifanc, a'r rheiny sy'n gweithio neu'n gweithredu ar eu rhan.
3. Mae'n ein helpu i nodi bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, neu rhwng gair a gweithred polisi'r llywodraeth, sy'n ein helpu i gynllunio ffoecs gweithgaredd dylanwadol y dyfodol.
4. Mae'n golygu bod y rheiny sy'n darparu gwasanaethau neu'n delio â phlant a phobl ifanc yn cael enghreifftiau bywyd go iawn o'r hyn y gellir ei wneud. Yn aml nid yw asiantaethau'n ymwybodol o effaith sut mae polisi'n cael ei roi ar waith neu sut mae arfer yn cael ei gyflawni, ac mae gweithio gyda nhw yn broses ddysgu werthfawr i bawb dan sylw.
5. Mae gwybodaeth ac ystadegau o'r gwaith cyngor a chymorth yn bwydo i'n cynlluniau tymor hir ninnau, a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol gyda phlant a phobl ifanc.

Enghraifft o achos

Roedd plentyn anabl wedi bod yn yr ysbyty am 3 mis yn aros am gefnogaeth nyrsio cyn medru mynd adre a dychwelyd i'r ysgol. Fe wnaethom ni ymyrryd a chafodd y gefnogaeth ei darparu'r diwrnod canlynol.

Rydym bob amser yn gwranddo ar blentyn neu gynrychiolydd sy'n cysylltu â'r swyddfa. Rydym yn gofyn a ydyn nhw wedi rhoi cynnig ar unrhyw systemau presennol, ac os nad ydynt rydym yn eu helpu i ganfod llwybr priodol neu eiriolwr a fydd yn eu cefnogi. Rydym yn eu hannog i gadw mewn cysylltiad ac yn eu cefnogi wrth iddynt ddilyn unrhyw weithdrefnau cwyno neu apelio perthnasol. Rydym hefyd yn rhoi canllawiau i eiriolwyr. Os nad yw'r mater dan sylw'n cael ei drafod yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol byddwn yn ymyrryd yn uniongyrchol ar eu rhan. Weithiau, bydd ymyrraeth yn digwydd yn llawer cynharach os oes angen gwneud hynny i hyrwyddo a diogelu hawliau a lles y plentyn.

Enghraifft o achos

Roedd ar Sue, 18 oed, angen dyfais gyfathrebu i'w galluogi i fynd i goleg addysg bellach. Nid oedd arian ar gael ar gyfer y ddyfais - roedd pob asiantaeth yn credu ei fod, neu y byddai'n fuan, yn gyfrifoldeb asiantaeth arall. Drwy gysylltu â'r gwahanol asiantaethau hwyluswyd datblygu fformwla ariannu, a fyddai'n galluogi pob asiantaeth i gyfrannu at ariannu'r ddyfais.

Nid yw'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn dyblygu gwasanaethau eraill a, lle gall sefydliad arall weithredu, rydym bob amser yn eu cyfeirio ymlaen. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi hawliau plant unigol neu grwpiau o blant. Oherwydd natur gyfrinachol y gwaith, dim ond y rheiny yr effeithir yn uniongyrchol arnyh nhw sy'n cael gwybod am y canlyniadau.

Enghraifft o achos

Daeth ymchwiliad gwasanaethau cymdeithasol i'r casgliad fod plant yn ddiogel. Fe roesom ni fwy o wybodaeth iddyn nhw, ac fe wnaethon nhw gynnal ymchwiliad newydd i ddiogelu'r plant.

Mae gwaith cyngor a chymorth yn enghraifft o sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd ar draws y sefydliad, ac mae'r tîm yn gweithio yn ôl rota. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd ar gael bob prynhawn yn ystod yr wythnos o 2.00 pm tan 4.00 pm; ond gall plentyn neu berson ifanc alw unrhyw bryd.

Yn ystod y flwyddyn nodwyd penodi Rheolwr i ddatblygu a chydlynu'r tîm traws-swyddogaeth hwn fel blaenoriaeth, ac mae'r swydd hon bellach wedi'i llenwi.

Enghraifft o achos

Cysylltodd aelodau o dîm nofio ysgol â'r swyddfa ar ôl cael gwybod am benderfyniad y pennaeth na fyddent yn cael amddiffyn eu teitl eleni am eu bod eisoes wedi treulio gormod o amser allan o'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Gofynnwyd i'r pennaeth pam nad oedd sut i dreulio amser allan o'r ysgol wedi cael ei drafod yn y Cyngor Ysgol. Cytunodd y byddai'n ystyried gwneud hynny yn y dyfodol.

"Pan mae plant yn cael stŵr am eu gwisg ysgol, nid bair plentyn yw hi wastad, achas alle fe fod yn bair rhieni, yn ariannol."


Ffeithiau a ffigurau

Cyngor a Chymorth yw un o'r meysydd sydd wedi tyfu gyflymaf yn ein gwaith, ac yn 2003-04 parhaodd tueddiad y blynyddoedd blaenorol wrth i nifer y galwadau o'r fath gynyddu 27% o'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr achosion yn ein cronfa ddata ers i'r swyddfa gael ei sefydlu bellach yn fwy na 500, gyda 250 o achosion newydd yn dod i'n sylw rhwng 1af Ebrill 2003 a 31ain Mawrth 2004.

Mae'r ystadegau a ganlyn yn rhoi cipolwg ar y math o faterion a dynnwyd at ein sylw a'r dulliau o'u cyflwyno. Fel rhan o ddatblygiad y gwasanaeth bydd ystadegau mwy cynhwysfawr yn cael eu cadw yn y dyfodol er mwyn caniatáu dadansoddiad mwy manwl o faterion a monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.




Rhyw'r plant a'r bobl ifanc y gweithredwyd ar eu rhan yn 2003-2004



Mae dulliau pobl o gysylltu â ni wedi parhau â'r tueddiad o gefnu ar gyfathrebu drwy lythyr a welwyd y llynedd (lleihad o 30%), gan syrthio 7% eto yn ystod 2003-04. Mae'r cyswllt e-bost yn parhau'n sefydlog, ond mae'n amlwg ei bod hi'n well gan y rhan fwyaf o bobl ffonio.

Dulliau a ddefnyddiwyd i gysylltu â'r Comisiynydd



Enghraifft o achos

Cysylltodd John, tad-cu a oedd wedi bod yn gofalu am 3 o wyrion, a oedd wedi'u lleoli gydag ef gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, â ni am gyngor. Fel llawer o 'ofalwyr sy'n perthyn' sy'n cysylltu â ni, roedd yn ansicr iawn o'i hawliau o ran cymorth ariannol ac a allai leisio barn ynghylch dyfodol tymor hir y plant. Fe wnaethom ni ddweud wrth John a'r plant fod eu hawdurdod yn cefnogi'r broses Cynhadledd Grwpiau Teuluol a hwyluswyd cyfarfod o'r fath a olygodd bod y teulu'n teimlo'n llawer mwy fel rhan o'r broses ac yn fwy eglur ynghylch cynlluniau'r plant i'r dyfodol.

"Be dwim hoffi yw pobl ddim yn gwrandao ar be fin ddeud, awestynnau patronising drsodd a throsodd."

dysgu
cymorth
atgyfnerthu
hygyrchedd
perthyn
amrywiaeth
gwerthfawrogi
gwerthuso


Enghraifft o achos

Aeth plentyn yn ôl i'r ysgol ar ôl bod yn absennol am ddwy flynedd wedi i ni eirioli ar ei rhan.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyswllt cychwynnol â'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn dod drwy riant neu ofalwr, ond mae gweithwyr cyngtori bob amser yn sicrhau eu bod yn siarad â'r plentyn neu'r person ifanc cyn gynted â phosib er mwyn canfod eu barn. Mewn rhai achosion mae'n briodol bod yr oedolion - yn ofalwyr neu'n weithwyr proffesiynol - yn gweithredu fel eiriolwyr dros y plentyn neu'r person ifanc a hwy fydd ein prif gyswllt. Mae hyn yn arbennig o briodol yn achos plant ifanc iawn, neu'r rheiny sydd â rhai anghenion cyfathrebu arbennig. Mewn llawer o achosion byddwn yn helpu sicrhau eiriolwr annibynnol lleol i'r plentyn. Mae oedolion sy'n cysylltu â'r tîm cyngor a chymorth bob amser yn cael gwybod ein bod yn gweithredu ar ran y plentyn neu'r person ifanc ac mai'r hyn fydd orau iddyn nhw a'u dymuniadau fydd yn arwain unrhyw weithredu a wnawn, yn hytrach na dymuniadau'r oedolion cysylltiedig.

Mae'n fwriad pendant gan y Comisiynydd Plant i ddatblygu hwn fel gwasanaeth i blant a phobl ifanc.


Pwy gysylltodd â ni yn y lle cyntaf 2003-2004



Mae dosbarthiad oed y plant a'r bobl ifanc rydym wedi gweithredu ar eu rhan yn nodi bod cyngor yn fwyaf tebygol o gael ei geisio, neu bod anawsterau'n fwyaf tebygol o godi, ar adegau trosglwyddo pwysig, yn enwedig o amgylch Cyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol, adeg trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd ac o addysg amser llawer i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.




Oedran y plant a'r bobl ifanc y buom ni'n gweithredu ar eu rhan yn 2003-4



"Dwin meddwl dylair ysgol cadw at eu gair a gwahardd bwlls a rhai sy'n creu trwbwl."

Mae'r mathau o faterion a ddaeth i'n sylw drwy gyngor a chymorth wedi bod yn debyg yn ystod y 3 blynedd diwethaf, gydag addysg - yn arbennig Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) - a materion gwasanaethau cymdeithasol yn amlwg iawn. Mae'r graff sy'n dilyn yn cynnwys penawdau ar wahân ar gyfer materion y gellid barnu eu bod hwythau'n gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol neu addysg, y bu nifer sylweddol yn cysylltu â ni yn eu cylch. O dan bennawd cyffredinol y Gwasanaethau Cymdeithasol byddai materion cysylltiedig â mabwysiadu, plant sy'n derbyn gofal, maethu, gofal seibiant a'r rheiny sy'n gadael gofal.

Cyngor a chymorth: materion 2003-04



Yn ogystal â helpu i sicrhau gwell canlyniadau, mwy o amddiffyniad neu fesurau i wneud iawn i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, gall achosion unigol fod yn arwyddion gwerthfawr o'r angen am newid polisi neu arferion gwaith. Gall dadansoddi'r hyn aeth o'i le ar gyfer un person ifanc fwydo i'n cyfraniad at drafodaeth fwy cyffredinol, ymateb ymgynghori neu ymgyrch ffocws penodol.



"Y peth gwaethaf am y bws yw'r pobl Mae nhw jyst yn, maer rhan fwy yn smygu a mae nhw'n rhegi a ma nhw ddim yn gadael i chi fod. Mae nhw'n annoy-o chi."

"Dwin meddwl fod bwyd ysgol yn afiach. Does dim digon o fwyd iach. Dwin meddwl y dylsa nhw werthu mwy o ffrwythau a prydoedd bwyd efo llysiu ynddynt mi fasa hyn yn gret."

Ein rhaglen waith at y Dyfodol

Beth sydd nesaf?

Yn ogystal â'r gweithgareddau newydd a restrwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad a pharhau gydag elfennau parhaus ein rhaglen waith, yr agweddau allweddol yn ystod y flwyddyn Ebrill 2004 i Fawrth 2005 fydd:

- cwblhau adolygiad AALI a chychwyn ar adolygiad o Gwynion, Eiriolaeth a Datgelu Camarfer ym maes darpariaeth iechyd
- datblygu'n gwasanaeth Cyngor a Chymorth i blant a phobl ifanc, ac ymgymryd ag ymchwiliadau i achosion unigol
- peilotio a recriwtio llysgenhadon ysgol a chanolbwyntio mwy ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- rhoi cynlluniau ar waith i gynnwys plant a phobl ifanc yn systematig yn y broses gynllunio a phennu blaenoriaethau o fewn ein rhaglen waith at y dyfodol
- estyn y gwasanaeth Atebôn i gynnwys negeseuon testun SMS
- monitro gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Clywch
- cynnal Cynhadledd yr ENOC (Rhwydwaith Ombwdsmyr Plant Ewrop), gyda Peter Clarke yn dod yn Llywydd newydd arnyn nhw
- hyrwyddo'r galwadau polisi a wnaed yn **Codi'r clawr a Ond mod i'n cyrraedd yn sâff**
- parhau i wrando a dysgu, adolygu, ymchwilio, hyrwyddo arfer da a siarad dros blant a phobl ifanc Cymru.

Bydd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol sy'n cychwyn yn Ebrill 2005 yn cynnwys darpariaeth er mwyn i blant a phobl ifanc gyfrannu at bennu ein blaenoriaethau, a hefyd i ddylanwadu ar sut rydym yn ymgymryd â pheth o'r gwaith rydym eisoes wedi ymrwymo i'w wneud. Er y gall fod angen trafod y manylion terfynol, yn 2005-06 mae'r Comisiynydd Plant yn bwriadu:

- recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i gefnogi gwaith y gweithwyr Cyngor a Chymorth
- cynnal adolygiad thematig cynhwysfawr ar fater bwlio, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn eu cynllun ac wrth lunio'r argymhellion
- lansio llinell Radffon benodol ar gyfer plant a phobl ifanc
- cynnal dau ddigwyddiad i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc
- parhau gyda'r gwaith o fonitro, adolygu ac ymateb i ymgynghori, a sicrhau rôl fwy uniongyrchol i blant a phobl ifanc

"Rwy'n meddwl dylai ysgolion wneud llawer mwy am fwls."

Adolygiad y Comisiynydd Plant o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru

Materion allweddol 2003-04

Bwlio

Mae bwlio'n bwnc sydd bron bob amser yn codi wrth i mi sgwrsio â phlant a phobl ifanc. Mae'n gwneud bywydau rhai mor ddiflas fel eu bod bron ag ystyried hunanladdiad. I eraill, mae'n dod yn rhywbeth beunyddiol i'w oddef yn chwerw, a bydd yr effeithiau'n parhau weddill eu hoes. Mae'r rhan fwyaf o fwlio'n digwydd mewn amgylcheddau sy'n cael eu rheoli gan oedolion, ac mae ysgolion a'r daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn arbennig o arwyddocaol.

Mae'n rhaid bod gan bob ysgol yng Nghymru bolisi gwrth-fwlio, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno canllawiau i ysgolion i'w helpu i drafod y mater yma. O'r hyn y mae plant, athrawon a rhieni yn dweud wrthyf, mae amrywiaeth mawr yn nifrifoldeb yr ymateb i'r mater yma mewn gwahanol ysgolion. Rwy'n dal i gwrdd, o bryd i'w gilydd, â Phenaethiaid sy'n honni nad oes bwlio yn eu hysgol. Maen nhw'n twyllo'u hunain.

Yn yr ysgolion lle mae'r holl staff yn cydnabod bod bwlio'n bodoli, a lle mae'r ysgol gyfan yn ymroddedig i'w dacio, y mae'r plant yn dweud nad yw'n digwydd yn helaeth. Rwyf wedi ymweld ag ysgolion sydd â chynlluniau creadigol gwych i atal bwlio.

Mae'n amlwg bod cefnogaeth cyfoedion, mentora a chyfeillio yn medru gweddnewid awyrgylch ysgol a gwneud bwlio cyson yn llawer llai tebygol. Rwy'n credu y dylai pob ysgol yng Nghymru fabwysiadu cynllun o'r fath.

Serch hynny, nid yw'r strategaethau ataliol yma'n gwarantu na fydd bwlio'n digwydd, ac mae angen bod gan ysgolion bolisiau a gweithdrefnau i ddod o hyd i atebion pan fydd yn codi. Nid yw llawer o bobl ifanc yn meddwl y bydd cwyno am fwlio'n arwain at unrhyw ganlyniadau positif. Maen nhw'n dweud eu bod yn aml heb gael eu cymryd o ddifri, nad yw'r camau mae staff yn eu cymryd yn effeithiol, ac y gall ymyrraeth yr ysgol wneud pethau'n waeth.



Mae rhieni wedi dod â phryderon tebyg i'm swyddfa. Mae plant yn aml yn anfodlon dweud wrth eu rhieni a'u hathrawon am y rhesymau hyn a hefyd am fod isddiwylliant ymhlith y disgyblion yn aml yn dirmygu 'cario clecs'. Mae'n rhaid i ni atal hyn drwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn medru rhoi gwybod am fwlio ac yn gwneud hynny, bod eu cwynion yn cael eu cymryd o ddifri, a'u bod yn cael eu cefnogi wrth i'w cwynion gael eu hymchwilio a chamau priodol gael eu cymryd.

Yn anffodus, er gwaethaf llawer o gamau positif a gwaith ardderchog gan nifer o gyrff gwirfoddol i blant yn tynnu sylw, yn darparu cefnogaeth neu'n cynyddu ymwybyddiaeth, mae'n dal yn amlwg fod bwlio'n cael effaith fawr ar fywydau'n plant a'n pobl ifanc o hyd. A dyna pam rwyf wedi penderfynu y bydd fy swyddfa'n cynnal astudiaeth fanwl ar fwlio, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau, barn ac argymhellion plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod y gweithredu gan bawb yn y dyfodol yn cael ei ganolbwyntio yn y modd mwyaf cynhyrchiol.

Yn y cyfamser, mae'r angen am weithredu brys wedi'i danlinellu gan achosion plant unigol a ddaeth at wasanaeth cyngor a chymorth fy swyddfa, yn ogystal â'r hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthyf i a'r tîm. Rwyf felly'n argymhell yn gryf bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cyfarwyddyd i ysgolion i drin cwynion plant a rhieni ynghylch bwlio fel cwynion ffurfiol o dan y gweithdrefnau cwynion y mae eisoes yn eu cyflwyno. Rwyf wedi cyflwyno argymhellion ar wahân ynghylch y rhain (yn enwedig y rhai i blant) yn adroddiad Clywch.

Dylid cyflwyno cyfarwyddyd hefyd sy'n rhoi hawl i blant a phobl ifanc gael eiriolwr annibynnol yn ystod ac yn dilyn ymchwiliad i'w cwyn.

"Dwin meddwl bod y gwefan yn rith dda, ond dyle ddim bod cymaint o sgwennu."

Dylai hyn fod ar wahân ac yn ychwanegol at y gefnogaeth emosiynol a ddarperir gan gwnsler annibynnol neu weithiwr bugeiliol. Dylai'r ddau beth hyn fedru cael eu hawlio pan fydd plant yn cwyno am fwlio, gyda'r plentyn yn medru dewis, lle bynnag y bo modd, a ydyw am fanteisio ar gefnogaeth o'r fath. Dylai'r cyfarwyddyd hwn fod yn statudol. Rwyf hefyd yn awgrymu bod Estyn, Arolygiaeth Ysgolion Cymru, yn archwilio trefniadau o'r fath fel rhan o'u harolygiadau.

Mae mesurau o'r fath yn angenrheidiol lle mae bwlio difrifol wedi digwydd, ond dylid mynd ati'n frwd i sicrhau mesurau ataliol fel yr uchod ym mhob ysgol yng Nghymru.

Gwasanaethau cymdeithasol i blant

Mae'r diffyg gweithwyr cymdeithasol wedi dod yn fater hanfodol yng ngwasanaethau plant Cymru. Mewn rhai ardaloedd mae plant mewn perygl sydd heb weithiwr penodol, neu lle mae'r gweithiwr wedi'i ddyrannu ar bapur ond nid yn ymarferol. Mae'n amlwg bod hyn yn golygu perygl go iawn i'r plant hyn, a'i bod hi'n argyfwng. Yn ogystal â'r prinder, mae llawer o symud o fewn y proffesiwn, wrth i weithwyr geisio dod o hyd i amgylchiadau lle maent yn teimlo eu bod yn medru gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

O safbwynt y plant eu hunain mae hyn yn aml yn rhwystr difrifol iddynt gael oedolyn y maent yn ymddiried ynddo/ynddi yn eu bywydau. Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn sôn am gael dau, tri neu hyd yn oed fwy o weithwyr mewn un flwyddyn. Mae hyn nid yn unig yn golygu bod creu perthynas lawn ymddiriedaeth yn anodd, ond hefyd yn golygu bod gweithwyr yn llai tebygol o weld arwyddion o newid pan fo pethau'n mynd o chwith.



Mae'n dod yn fwyfwy anodd denu gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso i wasanaethau plant, ac mae'r un mor anodd eu cadw yno. Pan fyddaf yn siarad â Gweithwyr Cymdeithasol gwasanaethau'r rheng flaen maen nhw'n sôn am rai pethau sy'n gyfarwydd i mi o'm profiad gwaith fy hun, ac eraill sy'n newydd.

Mae gweithwyr cymdeithasol wedi cwyno am y dull o'u portreadu yn y cyfryngau, a'r modd y maent yn aml yn cael eu beio am ymyrryd, ond hefyd am beidio ag ymyrryd, ers cryn amser bellach. Mae eu hadroddiadau cyson am fywyd gwaith sy'n llawn llenwi ffurflenni a lle maent yn cael trafferth dod o hyd i amser i greu perthynas a fydd yn wir yn helpu plant yn newydd i mi. Maen nhw'n dweud bod llawer o'r gweithdrefnau sydd yn faich arnynt yn ymddangos fel petaent yn ymwneud yn fwy ag amddiffyn yr asiantaeth y maent yn gweithio iddi nag amddiffyn plant a hybu eu lles.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal adolygiad o'r gweithlu Gwaith Cymdeithasol, ac mae Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cychwyn ar waith tebyg. Rwy'n croesawu'r ymgyrchoedd hyn a byddaf yn cyfrannu atynt. Rwy'n annog y ddau i ymateb yn uniongyrchol i brofiadau gwirioneddol gweithwyr cymdeithasol a rhoi lle amlwg i'r materion y maent yn eu codi ynghylch eu bywydau.

Bydd sgysiau gyda staff newydd gymhwyso sy'n dewis peidio â gweithio gyda phlant, a rhesymau staff dros adael y proffesiwn yr un mor bwysig, ac mae angen i ganfyddiad plant fod yn rhan annatod o'r broses hon.

Ar adeg pan fo'r farn gyhoeddus yn aml yn elyniaethus i waith cymdeithasol, bydd yn her i ailsefydlu gwaith cymdeithasol mewn gwasanaeth plant fel galwedigaeth ddeniadol i'n pobl orau a mwyaf disglair. Os ydym am fod ag unrhyw obaith o gyflawni'r her yma, mae'n rhaid i ni gychwyn â gwerthusiad cwbl onest a chynhwysfawr o'r hyn sy'n mynd o'i le yn awr. Mae gweithwyr cymdeithasol yn rhan hanfodol o'r ymagweddiad aml-asiantaeth ac mae ein plant yn haeddu gweithlu sefydlog a hyderus.

Rwy'n ymwybodol bod y nifer uchel o swyddi gwag yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi cael effaith ddirifol ar ansawdd a lefel y gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc. Mae problemau helaeth nid yn unig o ran recriwtio staff gofal cymdeithasol, ond hefyd o ran eu cadw. Mae'n gysur bod awdurdodau lleol wedi sylweddoli bod y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn un sector gydag un gweithlu, ac felly bod y demtasiwn i gystadlu yn erbyn ei gilydd drwy gynig amrywiol gynlluniau anogol yn niweidio'u hunain. Er fy mod yn fwyfwy pryderus ynghylch ansawdd a lefel y gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n ddi-amddiffyn oherwydd camdriniaeth, neu sy'n derbyn gofal, rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwaith y mae staff gofal cymdeithasol ar draws Cymru yn ymgymryd ag ef. Nid oes ateb tymor byr na chyflym i'r materion hyn. Serch hynny, mae rhai o'r problemau o ran recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yn troi o amgylch tri mater gwahanol ond cysylltiedig y mae angen gweithredu arnynt:

Cyflogau: mae'n bryd ailasesu rôl a chyfrifoldebau gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc, yn erbyn eu cyflog a'u hamodau gwasanaeth presennol, a disgwyliar yn eiddgar am drafodaethau'r Grŵp Tasg a Gorffen ar Faterion Cynllunio'r Gweithlu ym maes Gofal Cymdeithasol.



Plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ceisio lloches

Yn ystod y flwyddyn mae'r problemau a wynebir gan blant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ceisio lloches wedi dod fwyfwy i'm sylw. Mae lloches yn faes sydd heb ei ddatganoli ond mae'n cael effaith ar hawliau a lles plant yn y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd a thai. Mae hefyd yn faes sy'n derbyn llawer o sylw negyddol yn y cyfryngau ac mae hynny yn ei dro'n cael effaith negyddol ar blant.

Y Cyfryngau a Delwedd Gyhoeddus: Ar hyn o bryd portreadir gweithwyr gofal cymdeithasol fel rhai sydd o dan bwysau, yn dioddef straen, yn wynebu sialensiau, ac yn ymdrechu'n gyson i ymdopi â'r llwyth gwaith. Mae hyn i raddau helaeth mae'n debyg yn sgîl y ffaith eu bod yn gorfod cyflawni llwyth gwaith swyddi gwag. Yn anffodus, mae adroddiadau'r cyfryngau am yr argyfwng yn sgîl diddordeb y cyhoedd yn cyfrannu at y ddelwedd negyddol ac yn effeithio ar forâl ymarferwyr a'r parch a roddir iddynt.

Cynllunio'r Gweithlu: Byddai rôl y gweithiwr gofal cymdeithasol yn fwy deniadol petai ymgeiswyr posib yn cael sicrwydd eu bod yn ymuno â phroffesiwn a oedd wedi llwyddo diffinio terfynau i'r llwyth gwaith, fel bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i raddau helaeth wedi'i amddiffyn a'r targedau perfformiad o fewn cyrraedd. Byddaf yn cymryd diddordeb mawr mewn gweld canlyniadau'r ymarferiad cynllunio gweithlu diweddaraf gan awdurdodau lleol a ddylai nodi'r diffygion yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac am y tro cyntaf alluogi cynllunio strategol gwybodus ynghylch lefel a nifer y lleoedd rhaglen hyfforddi a chymhwyso proffesiynol y byddai angen eu cynnig i lenwi swyddi.

Nid ydym yn gwybod faint o blant a phobl ifanc o'r fath sydd yng Nghymru: a ydynt ar eu pennau eu hunain, gydag eraill, neu a oes ganddynt statws sefydledig. Mae ymchwil ar waith ar hyn o bryd i ddarparu'r wybodaeth hon, ond rwy'n credu bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol blant a phobl ifanc ceiswyr lloches yn eu cymunedau, nid dim ond Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

Mae'n amlwg i mi bod llawer o blant a phobl ifanc y mae eu rhieni wedi methu yn eu cais am loches yn gorfod dibynnu ar gefnogaeth awdurdod lleol neu gefnogaeth cronfa galedi Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae'r gefnogaeth hon yn anghyson, ac mae plant yn dioddef caledi difrifol o ganlyniad.

Enghraifft o hyn yr wyf wedi dod i wybod amdani yw achos ceisiwr lloches aflwyddiannus sydd â merch o dan chwe mis oed. Ni all y fam hawlio unrhyw fudd-daliadau, ond oherwydd y perygl yn ei mamwlad mae'r Swyddfa Gartref yn teimlo ei bod hi'n rhy beryglus i'w hanfon yn ôl yno. O ganlyniad nid oes ganddi gynhالياeth o gwbl, ac nid yw ei merch yn derbyn unrhyw gefnogaeth ychwaith. Nid yw'r plentyn yma'n derbyn ei hawliau dynol sylfaenol, ac ni ddylai plant sy'n byw yng Nghymru orfod dioddef fel hyn.

Mae rhai plant yn gorfod dychwelyd i wledydd lle maent wedi dioddef cam-drin erchyll a lle maent ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru yn dilyn asesiad risg gan arbenigwyr. Yn anffodus, mae llawer o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn dioddef anhwylder pwysau ôl-drawmatig o ganlyniad i'w profiadau. Rwyf eisoes wedi nodi diffygion CAMHS o ran ymateb i anghenion iechyd meddwl plant yng Nghymru. Nid yw cefnogaeth arbenigol, megis y Ganolfan i Ddioddefwyr Arteithio, yn gweithredu yng Nghymru.

Mae ymateb i anghenion y plant hyn ym myd addysg yn amrywio ar draws Cymru. Mae gan Gasnewydd wasanaeth addysg arbennig ar gyfer plant ceiswyr lloches. Mae llawer o blant wedi cysylltu â mi am y penderfyniad diweddar gan Gyngor Sir Caerdydd i dynnu eu gwasanaeth arbennig hwythau yn ôl. Rwy'n credu bod cefnogaeth gynnar ym myd addysg yn hanfodol bwysig o ran addysg, integreiddio a chaffael iaith.

Rwy'n galw ar LCC i gyflwyno canllawiau pellach i awdurdodau lleol ar gyfer asesu anghenion plant a phobl ifanc sydd ar eu pen eu hunain ac ar ddelio ag amgylchiadau lle mae ceisiadau rhieni am loches wedi methu ac mae plant mewn angen, neu mae eu rhieni wedi bygwth eu niweidio. Dylai fod yn ofynnol bod gan gyrrff gwirfoddol sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n ceisio lloches bolisiau amddiffyn plant a chysylltiadau â Phwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal.



Cefnogaeth i rieni a theuluoedd

Ar draws y gwahanol agweddau ar fy ngwaith, mae'r angen am estyn a datblygu cefnogaeth briodol a hygyrch i'r rheiny sy'n ymwneud â magu plant - yn famau, tadau, gofalwyr, llystad neu lysfam - wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth. Mae'r ffaith fod cynifer o'r galwadau i'm gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn dod oddi wrth rieni, lle maent yn aml wedi methu â dod o hyd i wasanaeth arall at eu hanghenion, yn dangos bod angen aruthrol am wasanaethau cefnogi rhieni a theuluoedd - gan gynnwys eiriolaeth - yng Nghymru.

Mae'r angen brys am gefnogaeth i deuluoedd mewn perygl, mewn angen neu sy'n wynebu argyfwng yn amlwg. Serch hynny, yn aml pan fydd rhieni neu ofalwyr yn cysylltu â ni fe gawn nad oes modd eu cyfeirio i fannau eraill am gymorth, ac mae'n amlwg bod gan asiantaethau cyhoeddus ffordd bell i fynd o ran darparu gwybodaeth hawdd ei deall am eu gwasanaethau a'u prosesau cwyno. Mae'n amlwg bod angen aruthrol am wasanaethau cefnogi rhieni a theuluoedd yng Nghymru. Yn ein profiad ni y ddau faes lle mae angen hanfodol ymhlith rhieni a theuluoedd yw cyngor ynghylch prosesau addysg ysgolion (yn enwedig AAA) a chyngor ar gyfraith deuluol, yn enwedig y trefniadau i blant pan fydd rhieni'n gwahanu. Mae'r papur gwyrdd, *Parental Separation: Children's Needs and Parents' Responsibilities*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Fasnach a Diwydiant, yn cynnwys ymhlith y cynigion welliant yn y cyngor cyfreithiol i rieni a phlant, darparu cyngor a chyfarwyddyd ar fodelau trefnu a datrys anghydfod. Mae trosglwyddo swyddogaethau Cafcass yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfle gwych i LCC ddatblygu ei chynlluniau yn y maes hwn ochr yn ochr â'r cynigion yn y papur gwyrdd.



Er bod yr angen am gefnogaeth i rieni a theuluoedd yn gyffredinol o bosib yn llai amlwg, mae'r un mor ddybryd. Mae llawer o ymgyrchoedd yn ceisio ymateb i anghydraddoldeb ac anfantais eithrio cymdeithasol, ond mae magu plant yn her fawr i bawb sy'n ymwneud ag ef, ac nid yw dangosyddion economaidd na chymdeithasol yn fesur gwyddonol o'r pwysau ar riant. Er fy mod yn croesawu'r ffaith fod LICC, drwy nodi magu plant a chefnogaeth deuluol fel thema allweddol yn y cynllun grant Cymorth, er enghraifft, yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni ac ymgyrchoedd o'r fath, rwyf hefyd wedi dod i ddeall bod llawer o gynlluniau Cychwyn Cadarn yn cael trafferth cynnal, heb sôn am estyn, y gefnogaeth hanfodol y maent yn ei darparu. Rwy'n credu y dylai pob riant fedru elwa o'r hyn sydd gan y Cychwyn Cadarn i'w gynnig; ac na ddylid anwybyddu'r profiad gwahanol iawn ond yr un mor heriol o fagu plant hyn a'r rheiny sydd yn eu harddegau. Byddai'r gymdeithas gyfan yn elwa llawer petai mynediad i gefnogaeth ddi-stigma yn cael ei hwyluso i bob teulu.

Mae amharoddrwydd i ymyrryd yng nghylch preifat bywyd y teulu wedi golygu bod llawer o anghyfiawnder wedi cael parhau.

Er fy mod yn credu bod terfyn ar yr hyn y gall ac y dylai'r wladwriaeth ei wneud, mae'n drist nodi, er gwaethaf mwy o ymwybyddiaeth o Hawliau Plant a Chonfensiwn y CU, fod llawer o blant yn cael eu hamharchu gartref. Yn fwyaf arwyddocaol, mae llawer o blant yn cael eu taro gartref - dull disgyblu sy'n gysylltiedig nid yn unig â diystyru hawliau dynol plant, ond hefyd â hen ddull aneffeithiol o'u magu. Rwy'n croesawu penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i barhau i wrthod cosb gorfforol, ond rwy'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod hawliau a buddiannau plant yn amlwg yn eu Cynllun Gweithredu Magu Plant. Rwyf hefyd yn galw arnynt i sicrhau bod addysg a chefnogaeth magu plant ar bob lefel yn cadw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn mewn cof. Rwy'n galw hefyd ar LCC i weithredu i sicrhau bod bylchau ac anghydraddoldeb cefnogaeth a achosir gan y ffaith fod rhai sefydliadau a fu'n weithgar yng Nghymru, yn enwedig Parentline Plus, bellach yn cael eu hariannu i weithio yn Lloegr yn unig, yn derbyn sylw.

Mae'n fater sy'n achosi cryn siom personol i mi ar adeg ysgrifennu bod llywodraeth y DU wedi nodi na fyddant yn caniatáu pleidlais rydd yn Nhŷ'r Cyffredin ar fater dileu amddiffyniad cosb resymol wrth i'r Mesur Plant fynd drwy'r Senedd. Rwy'n cael bod hyn yn arbennig o anodd ei gyfiawnhau gan fod pleidlais rydd wedi ei chaniatáu ar fater hela â chŵn, ac mae'n gwrthdaro â theitl y papur gwyrdd y lluniwyd y Mesur ohono - *Mae Pob Plentyn yn Bwysig (Every Child Matters)*. Byddai dileu'r amddiffyniad cyfreithiol hynafol hwn yn brawf diampau o ddilysrwydd y datganiad hwnnw i rieni, gofawr, pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd, y gymdeithas ehangach, ac wrth gwrs ein plant a'n pobl ifanc.

"Rwy'n meddwl bod bwlb yn major issue
gyda cycles o fwlb gyda'r riant yn bwlb
plentyn a wedyn y plentyn yn bwlb un arall.
Emosiynau ffrwyredig a stwff."

Cynllunio gofodol

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn strategaeth 20 mlynedd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wireddu uchelgeisiau cyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r cynllun hwn yn un o'r cyntaf o'i fath yn y DU, ac felly'n cyflwyno cyfle arbennig i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n destun pryder nad yw'r cynllun drafft yn nodi sut bydd plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i gyfrannu a chyfranogi'n effeithiol yn y broses o ddatblygu'r cynllun.

Mae Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, sydd newydd ei sefydlu, yn dangos bod gan blant a phobl ifanc syniadau adeiladol ynghylch yr ystod o faterion a nodwyd yn y Cynllun Gofodol - ac yn wir y Cynllun Datblygu Cynaliadwy - megis datblygu cludiant cyhoeddus, pryderon amgylcheddol, materion cyflogaeth a mynediad i hamdden.

Byddaf yn ymddiddori mewn gweld sut mae LICC yn ymateb i'r her o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwybod am y ddogfen strategol bwysig hon ac wedyn yn cael eu galluogi i fod yn rhan o'i datblygiad.

Materion sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol

Mae'r materion yr wyf wedi'u codi yn y ddau Adroddiad Blynyddol blaenorol yn parhau yn fy meddwl. Byddaf yn canolbwyntio yma dim ond ar y rhai sy'n dal yn destun pryder, neu lle bu datblygiadau penodol.

Tlodi plant

Yn fy Adroddiad Blynyddol cyntaf, gofynnais i Lywodraeth Cynulliad Cymru Iunio strategaeth i wrthweithio tlodi plant yng Nghymru. Mae'r grŵp a fu'n gweithio ar hyn wedi cynhyrchu eu hadroddiad, ac rwy'n cefnogi eu hargymhellion yn gadarn. Rwy'n croesawu'n arbennig y ffocws ar hawliau a'r pwyslais ar yr angen am gynnwys gwasanaethau cyffredinol wrth gyflwyno rhaglenni i dacio tlodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc unigol sy'n byw mewn tlodi - y mae llawer ohonynt yn byw y tu allan i'r ardaloedd a wasanaethir gan ymgyrch gloddiw Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymunedau'n Gyntaf.



Bydd angen i'r Cynulliad sicrhau eu bod yn cynnal momentwm ac yn cysylltu eu gwaith ag eiddo llywodraeth y DU. Mae meysydd treth a budd-daliadau sydd heb eu datganoli a pholisi macro-economaidd yn cael effaith aruthrol ar les plant yng Nghymru a bydd fy swyddfa'n parhau i gymryd diddordeb byw yn ymgyrchoedd a chynnydd y DU. Mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn dal i ddiodeff lefelau tebyg o dlodi heddiw i'r llynedd. Dim ond cam cyntaf i helpu'r rheiny o blith ein pobl ifanc sy'n ymdrechgu yn erbyn y canlyniadau bob dydd yw bod â strategaeth.

Mae llawer o ymrwymiad yng Nghymru, mewn gwirionedd, i leihau tlodi plant, ac rwy'n cymeradwyo'r ffaith fod hynny'n cydnabod pwysigrwydd y mater yma. Serch hynny, mae llawer o waith i'w wneud os yw Cymru i chwarae rhan yn nod Llywodraeth y DU o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020. Bydd fy adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon.

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS)

Mae'n flin gennyf ddweud fy mod yn llawer llai bodlon ar y cynnydd ym maes Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc. Er bod cyhoeddiad y Gweinidog Iechyd a Phlant ynghylch £700,000 ychwanegol i'r gwasanaethau hyn yn dilyn fy adroddiad y llynedd i'w groesawu, mae'n gwbl annigonol yn wyneb yr argyfwng sy'n parhau o ran darpariaeth. Ym mhob maes gwasanaeth ar gyfer plant rwy'n clywed sut mae diffyg cefnogaeth iechyd meddwl go iawn yn tanseilio cynnydd gwirioneddol. Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn profi lefelau o drallod a allai gael eu lleihau petai'r adnoddau cywir ar gael. Mae ymyrryd yn brydlon yn hanfodol ar gyfer y plant hyn, a bydd diffyg ymyrraeth yn golygu bod rhai ohonynt yn gorfod brwydro'n ddiangen am flynyddoedd ar ôl dod yn oedolion.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn gofyn bod Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol yn datblygu cynlluniau wedi'u costio, ond mae ein plant yng Nghymru yn dal mewn sefyllfa wael o'u cymharu â phlant Lloegr lle mae bron £300 miliwn yn cael ei fuddsoddi dros gyfnod o dair blynedd, lle mae datblygu CAMHS cynhwysfawr erbyn 2006 wedi'i nodi fel targed, a lle mae tîm o naw Gweithiwr Datblygu Rhanbarthol CAMHS wedi cael ei recriwtio i roi arweiniad a chymorth i staff lleol. Er fy mod yn croesawu'r pwyslais a roddwyd ar CAMHS gyda'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, rwy'n cael y gwahaniaeth yn Lloegr yn arbennig o anodd ei dderbyn gan fod gan Gymru strategaeth gynhwysfawr uchel ei pharch a ddylasai ein gwneud yn arweinydd yn y maes gwasanaeth hwn. Fel y byddech yn disgwyl o strategaeth, mae *Busnes Pawb* yn ystyried yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau statudol a gwirfoddol, ac fel sy'n aml yn wir, mae'r cyfanwaith yn fwy o beth na'r elfennau unigol. O ganlyniad, nid yw dyrannu briwsion ariannol cymharol fach ar gyfer rhai agweddau ar y strategaeth yn debygol o fod yn ateb mor effeithiol nac mor effeithlon ag y byddai ystyried goblygiadau ariannu a chyllido *Busnes Pawb* fel cyfanwaith yn ofalus. Rwyf felly'n adleisio cais y llynedd o'r galon i'r Cynulliad ymrwmo'r adnoddau angenrheidiol neu dderbyn yn gyhoeddus ei fod wedi cefnu ar ei strategaeth.





Chwarae, mannau cyhoeddus a chynllunio

Mae diddordeb cyhoeddus a gwleidyddol cynyddol ym mater mannau cyhoeddus a sut mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad iddynt, ynghyd â mathau mwy strwythuredig o weithgareddau hamdden ac adloniant. Mae'n amlwg iawn bod pobl ifanc yng Nghymru ac ar draws y DU, o'u cymharu â'u cyfoedion mewn llawer man arall yn Ewrop, yn cymryd rhan mewn llai o weithgaredd corfforol a chwaraeon, yn cael llai o ryddid i symud o gwmpas ac annibyniaeth gorfforol, yn treulio mwy o amser yn gwylio'r teledu ac yn llai amlwg yn gyhoeddus.

Mae cysylltu â phlant a phobl ifanc i gael hyd i atebion creadigol i'r sefyllfa hon yn anoddach pan yw'r angen a deimlir i ddiogelu'n cymunedau rhag ymddygiad rhai pobl ifanc, drwy gyrrffw a gorchmynion gwasgaru, mor amlwg yn yr agenda mannau cyhoeddus. Rwy'n credu mai un o'r camau mwyaf adeiladol yw annog deialog rhwng plant, pobl ifanc ac oedolion yn ein cymunedau.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi dod yn ymwybodol o amrywiol grwpiau o bobl ifanc sydd wedi datblygu eu hymgyrchoedd cymunedol eu hunain o amgylch chwarae neu hamdden, gan chwalu'r gwrthwynebiad cychwynnol, ac mae fy nhîm wedi darparu cefnogaeth iddyn nhw.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfle i arwain drwy esiampl yn y maes hwn drwy ddod o hyd i ffyrdd o asesu effaith eu polisiau a'u penderfyniadau cynllunio ar blant a phobl ifanc yn systematig a chyflwyno tystiolaeth gyhoeddus o hynny. Mae cyfle gwerthfawr yma i bob math ar chwarae gael lle yng nghanol bywydau ein plant a'n pobl ifanc yng Nghymru, boed hynny yn y wlad neu'r dref, a gwneud ein hymrwymiad i Erthygl 31 Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yn ystyrion.

"Cafon ni siawns i roi barn, ond dewision nhw ei anwyb yddu."

Addysg

Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'n eironig, efallai, mai rhieni - ac nid y disgyblion eu hunain - a welir fel defnyddwyr terfynol gwasanaethau addysg. Rydym yn croesawu newidiadau eleni i'r Rheoliadau Gwahardd sy'n rhoi hawl apelio i ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymru yn erbyn cael eu gwahardd o'r ysgol. Byddem yn hoffi gweld hawliau disgyblion yn cael eu hestyn i feysydd addysg eraill megis apeliadau derbyn a'r hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW).

Profion

Rydym yn croesawu camau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu'r Tasgau Asesu Safonol (TASau) ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3, Bydd plant ac athrawon fel ei gilydd yn elwa o fod dan lai o bwysau.

"Faswn i ddim yn achwyn achos neith o ddim daloni, os oedden nin meddwl bydde fe'n helpu iddyn nhw newid eu meddwl, wedyn ie bydden nin hapus i achwyn ond rydyn nin gwylbod byddwn nhw ddim. Mae pobl wedi cwyno, ond mae e wastad yn cael ei anwyb yddu."

Parch

Ac yn olaf, byddaf yn dychwelyd eto at un o themâu blynyddol fy adroddiadau, sef agwedd y cyhoedd at bobl ifanc a'u teimlad nad ydynt, at ei gilydd, yn cael eu parchu gan y gymdeithas mewn oed. Yn amlwg nid yw hwn yn fater clir. Mae rhieni ac oedolion eraill wedi dweud wrthyf i eu bod weithiau'n teimlo dan fygythiad o weld grwpiau o bobl ifanc yn 'loetrann' ar y strydoedd yn hwyr y nos. Maen nhw'n dweud eu bod yn teimlo bod yr ymddygiad yma'n wrthgymdeithasol a bod rhaid dod o hyd i ateb. Mae rhai o'r cyfryngau a sylwebyddion cymdeithasol yn cyfrannu at yr ofn hwn, sydd yn aml heb unrhyw sail resymegol o gwbl.

Ar brydiau, wrth gwrs, mae plant a phobl ifanc wedi disgrifio teimladau tebyg. Mae adroddiad diweddar *A Child's Place: why environment matters to children* a gomisiynwyd ar y cyd gan Demos a'r Gynghair Werdd), yn cyflwyno darlun anghyfforddus o ofnau plant ynghylch mynd allan yn eu cymunedau, gyda'r strydoedd yn dod yn fannau na ddylid mentro iddynt ar gyfer nifer cynyddol o blant. Mae'n wir bod y plant a oedd yn rhan o'r ymchwil yn beio'r rheiny 'yn eu harddegau' am yr hyn a welent fel fandaliaeth neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau. Serch hynny, mae'n rhaid i ni oedolion ddeall hefyd eu bod yn ofni traffig, dieithriaid a chael eu herwgipio, dychryniaeth a chael eu bwlio. Mae'n rhaid i ni glywed, parchu, ac ymateb i'r pryderon hyn a fynegwyd, fel bod plant ac oedolion yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Wedi dweud hyn, mae'n rhaid i ni ddelio'n ymarferol fel cymdeithas â mater ymddygiad bygythiol rhai pobl ifanc - yn ogystal ag ymddygiad tebyg rhai oedolion. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddeddfwriaeth newydd yn erbyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cynnig ateb, ond rwy'n amau ai dyma'r atebion iawn. Fel yn achos llawer o bortreadau'r cyfryngau o blant a phobl ifanc - lle maen nhw'n aml yn cael eu cyfleu fel angylion neu gythreuliaid ac yn anaml fel bodau dynol - rwy'n ofni bod y duedd ddinistriol hon mewn perygl o gadarnhau camddealltwriaeth ynghylch nifer y troseddau a realiti pwy sy'n eu cyflawni a phwy yw'r dioddefwyr - er enghraifft, anwybyddu niferoedd y bobl ifanc sy'n dioddef troseddau a darparu stereoteipiau negyddol o bobl ifanc.



Pan geir bod systemau, gweithdrefnau neu bobl broffesiynol wedi methu plant mae hynny'n aml am fod eu hanghenion a'u hawliau dynol heb gael yr un flaenoriaeth ag eiddo oedolion. Nid ydynt wedi cael eu parchu. Yn rhy aml mae anghenion, gwasanaethau a blaenoriaethau oedolion yn cael mwy o sylw nag eiddo aelodau ifancach a mwy diamddiffyn cymdeithas. Mae'r sefydliadau niferus sydd, fel fy nhim innau, yn gweld rhoi llais i blant fel prif amcan, yn wynebu tasg aruthrol.

Gall y neges nad yw hi'n fater yn syml o ffitio'r plant i'r systemau oedolion, ond o drawsnewid y systemau mewn ffordd sylfaenol, fod yn anoddach ei throsglwyddo na'r awgrym haws ei lynu y byddai cael un neu ddau o blant ar ambell bwyllgor yn cyflawni'r angen am gynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrion yn eu cymunedau, eu hysgolion a llywodraeth eu gwlad.

Yng Nghymru mae gennym ni lawer o brosiectau ac ymgyrchoedd sy'n dangos y cyfraniad y gall ein pobl ifanc ei wneud i'w cymunedau ac mae agweddau'n newid. Mae'r angen am ddychwelyd at y thema hon, a'r angen am dynnu sylw at y pethau bach sy'n dangos parch neu fel arall, yn ogystal â'r bylchau mawr yn y gwasanaeth a ddarperir neu ddatblygiad polisi, yn debygol o barhau am flynyddoedd lawer. Hyd nes y ceir parch o'r ddwy ochr, bydd gwrthdaro a chamddealltwriaeth yn parhau, bydd plant a phobl ifanc yn parhau i ddiodef, a bydd y gymdeithas gyfan yn dlotach o'r herwydd.



"Does neb yn roi cynlluniau hir dymor imi,
nac yn helpu."

chwarae
siarad-allan
cydnabod
archwilio
eiriolaeth
monitro
hawliau
parch

Datganiad Ariannol Cryno

Am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2004

Mae'r datganiad ariannol canlynol yn grynodedb o'r Cyfrifon Adnoddau ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru am y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2004. Trosolwg yw'r datganiad, ac nid yw'n cynnwys cymaint o wybodaeth ag a fyddai'n caniatáu dealltwriaeth lawn o ganlyniadau ac amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru, fel a ddarperir yn y cyfrifon blynyddol ac adroddiadau llawn. Mae set gyflawn o gyfrifon wedi ei rhoi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Cynulliad) ac y mae'n cynnwys y wybodaeth fanwl a fynnir gan y gyfraith a'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau. Gellir cael copi o'r cyfrifon hyn, yn ddi-dâl, trwy ysgrifennu at y Comisiynydd yn ei swyddfa gofrestredig: Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter, Phoenix Way, Llansamlet, ABERTAWE SA7 9FS.

Cefndir Statudol

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Pennir pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn y Ddeddf honno ac yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru a ddaeth i rym yn Awst 2001. Ymgwymerodd y Comisiynydd cyntaf, Mr Peter Clarke â'i ddyletswyddau ar 1af Mawrth 2001.

Adolygiad o'r gweithgareddau ac o ddatblygiadau'r dyfodol

Rhoddir adolygiad o'r gweithgareddau a datblygiadau'r dyfodol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli

Bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu fel aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

Peter Clarke

Maria Battle

Sara Reid

Rhian Davies

Sharon Davies

Charlotte Blair

Buddiannau'r Uwch Dîm Rheoli

Mae cofrestr o'r holl fuddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd yn swyddfa gofrestredig y Comisiynydd.

Peter Clarke

Comisiynydd Plant Cymru

Awst 2004

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau
am y cyfnod 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004

	2003-2004			2002-2003				
	Amcangyfrif			Alldro				
	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net	Gwariant gros	Incwm	Cyfanswm net	Cyfanswm alldro net o gymharu â'r Amcangyfrif	Alldro'r flwyddyn flaenorol
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Costau gweinyddu	<u>1,268</u>	<u>-</u>	<u>1,268</u>	<u>1,156</u>	<u>(1)</u>	<u>1,155</u>	<u>113</u>	<u>1,122</u>

Datganiad Cryno o'r Gost Gweithredu
am y cyfnod 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004

	2003-2004		2002-2003	
	£000		£000	
Costau gweinyddu				
Costau staff		657		509
Costau gweinyddu eraill		<u>499</u>		<u>613</u>
		<u>1,156</u>		<u>1,122</u>
Incwm gweithredu		(1)		-
Costau gweithredu net		<u>1,155</u>		<u>1,122</u>
Alldro adnoddau net		<u>1,155</u>		<u>1,122</u>

(i) Mae'r costau staff a'r costau gweinyddu eraill ar gyfer 2002-2003 wedi eu hailddatgan er mwyn adrodd am gostau'r ddwy flynedd ar yr un sail.

Y Fantolen Gryno
ar 31 Mawrth 2004

	2004	2003
	£000	£000
Asedau sefydlog	163	222
Asedau cyfredol		
Blaendaliadau	21	17
Arian yn y banc ac mewn llaw	<u>192</u>	<u>23</u>
Credydwy'r symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(196)	(76)
Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net	<u>17</u>	<u>(36)</u>
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol	<u>180</u>	<u>186</u>
Ecwiti'r trethdalwyr	<u>180</u>	<u>186</u>

Datganiad Cryno o'r Llif Arian
am y cyfnod 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004

	2003-04	2002-03
	£000	£000
All-llif arian net o weithgareddau gweithredol	(934)	(1,034)
Gwariant cyfalaf	(39)	(22)
Ariannu gan y Cynulliad	1,142	1,063
Cynnydd mewn arian dros y cyfnod	<u>169</u>	<u>7</u>

Schedule 5

Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion y Sefydliad
am y cyfnod 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004

Nod ac Amcanion Comisiynydd Plant Cymru

Nod

Amddiffyn a hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac wrth arfer pob un o'i swyddogaethau, rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

	2003-2004			2002-2003 (ailddatganwyd)		
	Gros	Incwm	Net	Gros	Incwm	Net
	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Amcan:						
Amcan 1	216	1	215	166	-	166
Amcan 2	229	-	229	238	-	238
Amcan 3	76	-	76	95	-	95
Amcan 4	104	-	104	104	-	104
Amcan 5	36	-	36	9	-	9
Amcan 6	125	-	125	283	-	283
Amcan 7	287	-	287	199	-	199
Amcan 8	4	-	4	2	-	2
Amcan 9	79	-	79	26	-	26
	<u>1,156</u>	<u>1</u>	<u>1,155</u>	<u>1,122</u>	<u>-</u>	<u>1,122</u>

Amcanion y Comisiynydd oedd y canlynol:

1. Hybu hawliau a lles Plant.
2. Sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc Cymru yn gwybod am fodolaeth y Comisiynydd, ei swyddogaeth a'i bwerau; lleoliad ei swyddfydd a sut i gyfathrebu / cysylltu â'r Comisiynydd a'i staff a beth yw hawliau Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig y rheini a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn; annog y fath gyfathrebu / cysylltu; a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o hawliau Plant a Phobl Ifanc.
3. Sicrhau y gofynnir barn Plant a Phobl Ifanc ynghylch y modd y dylai'r Comisiynydd gyflawni ei swyddogaeth, ac ynghylch cynnwys ei raglen waith flynyddol.

4. Adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion, eiriolaeth a chynghori, a chwythu'r chwiban, er mwyn canfod a ydynt, ac i ba raddau, yn effeithiol o ran amddiffyn a hybu hawliau a lles plant.
5. Adolygu a monitro'r effaith ar blant o ganlyniad i 'gyflawni, neu gynigion i gyflawni, unrhyw un o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a /neu'r cyrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
6. Archwilio achosion plant penodol sydd, neu a fu, yn derbyn gwasanaethau rheoledig gan gyrrff a restrir yn Atodlen 2a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.
7. Darparu neu drefnu cyngor, cynrychiolaeth neu gymorth arall i blentyn sy'n gwneud cwyn neu'n cyflwyno sylwadau i ddarparwr gwasanaeth; a/neu unrhyw weithrediadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau os yw'r gweithrediadau, ym marn resymol y Comisiynydd, yn ymwneud â materion mwy cymwysadwy a chyffredinol, neu'n berthnasol i hawliau a lles plant yng Nghymru. Rhoi cyngor a gwybodaeth i unrhyw unigolyn.
8. Cadw pwerau'r Comisiynydd a'u heffaith ar Blant o dan arolwg parhaus.

9. Ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Gan fod y sefydliad yn newydd, cedwir yr amcanion o dan arolwg yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu swyddogaeth a gwaith y Comisiynydd. Yn ystod 2003-2004 ailddatganwyd yr amcanion, i adlewyrchu cyfuno'r amcanion o gynghori a chynorthwyo (amcan 7), a ddatgelwyd cyn hynny fel tri amcan ar wahân; ac nid yw rheoli'r swyddfeydd a chyllid bellach yn amcan ar wahân, ond yn hytrach yn wasanaeth canolog sy'n cynnal pob un o'r amcanion uchod. Dosrannwyd y costau gweithredu i'r amcanion trwy gyfeirio at feintiau cymharol yr amser a dreuliodd y staff ar yr amcanion uchod.

Peter Clarke

*Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifo
31 Awst 2004*

NODIADAU

1. Sail Paratoi

Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 gan gyfeirio at Reoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 1985 (OS 1995/2092) cyn belled ag y bônt yn berthnasol.

Archwilwyr

Mynegodd yr Archwilydd farn ddiamod ar y cyfrifon blynyddol llawn am y flwyddyn sy'n diweddau ar 31 Mawrth 2004. Yn ychwanegol, nid oedd gan yr Archwilydd unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol.

Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf wedi edrych ar y datganiad ariannol cryno sydd ar dudalennau 39 i 42, sydd wedi ei baratoi yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn Nodyn 1 uchod.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Archwilydd

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r datganiad ariannol cryno. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn wrthy ch chi am y modd y'i paratowyd a'i gysondeb â'r datganiad ariannol llawn a'r rhagair.

Yr wyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof i wybod am unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau sylweddol rhyngddi â'r datganiad ariannol cryno.

Sail fy marn

Yr wyf wedi cyflawni fy ngwaith yn unol â Bwletin 1999/6, "Datganiad yr Archwilydd ar y datganiad ariannol cryno" a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Cyfrifo i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Fy marn

Yn fy marn i mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn a rhagair y Comisiynydd am y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2004 ac y mae wedi ei baratoi'n briodol ar y sail a bennir yn Nodyn 1 ar y datganiad ariannol cryno.

John Bourn

7 Medi 2004

Archwilydd Cyffredinol Cymru

3-4 Plas y Parc

CAERDYDD

CF10 3DP